# Cynllun strategol 2025-2030

## Sicrhau, Gwella, Dylanwad.



Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Cynnwys


3 Rhagair

4 Ein diben

5 Amdanom ni

6 Ein gwerthoedd a'n hegwyddorion arweiniol

8 Ein nodau 2025-2030

9 Ein hamcanion

12 Cynlluniau ategol

13 Mesur ein heffaith

14 Ein cynllun gweithredu ar gyfer 2025-2027

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**




# Rhagair

## Bu'r pum mlynedd diwethaf yn gyfnod heriol dros ben i bob gwasanaeth cyhoeddus – gyda'r rhai hynny sy'n gweithio ym maes gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant a chwarae, a'r rhai sy'n eu defnyddio, yn wynebu pandemig ac argyfwng costau byw.

Dylid canmol pawb dan sylw bod y rhan fwyaf o'r gofal yng Nghymru yn parhau i fod yn ofal da. Rydym am fod yn rhan o greu dyfodol hyd yn oed gwell dros y pum mlynedd nesaf, gan gydnabod bod angen gwneud newidiadau parhaus er mwyn helpu i ddatblygu gwasanaethau ac ymateb i ofynion newydd. Ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain. Rydym am weithio'n agos gyda'r bobl niferus sy'n defnyddio ac yn darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant a chwarae.

Rydym yn uchelgeisiol ar ein cyfer ni ein hunain ac ar gyfer y sectorau a'r gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio a'u harolygu. Rydym am roi sicrwydd ynghylch diogelwch ac ansawdd, gwneud mwy i gefnogi gwelliannau a chynyddu ein dylanwad, fel y caiff pobl yng Nghymru eu cefnogi gan wasanaethau sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w bywydau.

Byddwn yn adolygu ac yn monitro ein cynnydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni ein huchelgeisiau. Yn bwysicaf oll, byddwn yn gofyn i bobl ddweud wrthym i ba raddau rydym yn llwyddo i fodloni ein hamcanion. Rydym yn disgwyl i'r gwasanaethau rydym yn eu rheoleiddio ac yn eu harolygu fod yn ymrwymedig i fyfyrio, dysgu a gwella'n barhaus, ac rydym yn rhannu'r ymrwymiad hwn.  Gyda'n gilydd, byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau'n gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl ar draws Cymru.

**Mae'r cynllun strategol hwn yn disgrifio'r hyn rydym am ei gyflawni erbyn 2030 a sut y byddwn yn gwneud hynny.**

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**




# Ein diben

## Yn y cynllun hwn rydym wedi diwygio ein datganiad cenhadaeth i adlewyrchu ein rôl hanfodol o ran gwella.

Rydym yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i sicrhau ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru. Rydym yn cyfrannu at wella gofal ar lefel unigol, ar lefel gwasanaeth, ac ar lefel sector.



Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**




# Amdanom ni

- Rydym yn cyflawni swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru er mwyn rhoi sicrwydd ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant a chwarae.
- Rydym yn penderfynu pwy sy'n gallu darparu gwasanaethau.
- Rydym yn arolygu ac yn cymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i bobl, ac yn bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoliadol.
- Rydym yn cefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant a chwarae.
- Rydym yn ymateb i bryderon a godwyd gyda ni ynghylch gwasanaethau.

Mae ein timau'n gweithio ledled Cymru i gefnogi ein swyddogaethau a chyflawni gwaith sicr. Er mwyn gweithredu'r cynllun hwn yn llwyddiannus, mae angen i ni gynnal ein lefelau adnoddau presennol.

Gellir dod o hyd i fwy amdanom ni yn **Adroddiadau Blynyddol** ein Prif Arolygydd.



Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**




# Ein gwerthoedd a’n hegwyddorion arweiniol


Mae ein gwerthoedd yn siapio ein gwaith bob dydd ac yn sicrhau bod pobl yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn:

- **Gofalgar:** Rydym yn drugarog ac mae’n hawdd siarad â ni.
- **Teg:** Rydym yn gyson, yn ddiduedd ac yn gynhwysol.
- **Uniondeb:** Rydym yn onest a dibynadwy.
- **Proffesiynol:** Rydym yn fedrus, yn wybodus ac yn arloesol.
- **Parch:** Rydym yn gwrando ar bobl, yn ymgysylltu â nhw ac yn eu gwerthfawrogi.

Gallwch weld y ffordd rydym yn ymddwyn yn unol â’n gwerthoedd [yma.]

Ers ein cynllun strategol diwethaf, rydym wedi datblygu cyfres o egwyddorion er mwyn arwain ein dull fel arolygiaeth. Y rhain yw:

- Rhoi pobl yn gyntaf
- Gweithredu ar sail gwybodaeth
- Bod yn ymatebol ac yn seiliedig ar risg
- Cydweithio
- Cefnogi gwelliannau ac arloesi
- Myfyrio a dysgu






Mae ein gwerthoedd a'n hegwyddorion arweiniol yn cyd-fynd â **Chod y Gwasanaeth Sifil** a'r **Egwyddorion Nolan**. Rydym hefyd yn falch o fod yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i hyrwyddo ac ymgorffori egwyddorion diwylliannau cadarnhaol.

Nid yw ein strategaeth yn wahanol i dirwedd sector cyhoeddus ehangach Cymru. Byddwn hefyd yn cymhwyso safbwynt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 at ein ffyrdd o weithio.

- **Cydweithredu**
- **Integreiddio**
- **Cymryd rhan**
- **Hirdymor**
- **Atal**

Rydym yn gobeithio y gallwch weld pob un o'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn ein blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Yn ein cynllun lle rydym yn trafod 'gwasanaethau', rydym yn golygu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant a chwarae sy'n cael eu rheoleiddio gennym ni (wedi'u cofrestru â ni a/neu'n cael eu harolygu gennym) gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol a CAFCASS Cymru.

Mae 'pobl' yn golygu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n derbyn ac yn defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant a chwarae gan gynnwys eu gofalwyr a'u teuluoedd.



# Ein nodau 2025-2030

Mae gennym dri uchelgais craidd i AGC eu cyrraedd dros y pum mlynedd nesaf.




## Sicrhau

Rhoi sicrwydd am ganlyniadau i bobl.

## Gwella

Annog, cynorthwyo, herio ac ysbrydoli gwasanaethau ac ein hunain, i wella'n barhaus.

## Dylanwadu

Bod yn adnabyddus a dibynadwy, gan rannu ein dealltwriaeth a'n harbenigedd unigryw.

Bydd yr uchelgeisiau hyn yn canolbwyntio ar ein gwaith, yn AGC a gyda'n rhanddeiliaid, i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i bobl Cymru. Byddwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau i bobl a gwasanaethau'n gwella'n barhaus; gan ddefnyddio technoleg i wella'r ffordd rydym yn gweithio. Byddwn yn sefydliad effeithlon, cydweithredol, a gweladwy.

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**




# Ein hamcanion

Cyflawni ein huchelgeisiau, rydym wedi nodi amcanion allweddol y byddwn yn gweithio tuag atynt dros y pum mlynedd nesaf.



## Sicrhau

Rhoi sicrwydd am ganlyniadau i bobl.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

1. Sicrhau bod ein gwaith yn canolbwyntio ar ddiogelwch pobl, ansawdd eu bywyd a'u profiad o ofal.
2. Darparu adroddiadau a gwybodaeth o ansawdd uchel sy'n hawdd eu deall fel bod y bobl yn darllen ein gwaith a'n canfyddiadau.
3. Cael gweithlu amrywiol, cadarn a gwydn.
4. Meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, darparwyr, comisiynwyr a chydweithwyr.

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Sicrhau

Gwella

Dylanwad

## Gwella


### Annog, cynorthwyo, herio ac ysbrydoli gwasanaethau ac ein hunain, i wella'n barhaus

Byddwn yn gwneud y canlynol:

1. Dathlu llwyddiant ac annog gwelliant parhaus mewn gwasanaethau gofal ar lefelau sector ac mewn gwasanaethau unigol.
2. Hyrwyddo diwylliannau sefydliadol cadarnhaol a chynhwysol, a gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.
3. Gwella ein gwaith mewnol ac allanol ar y cyd, gan ddysgu oddi wrth ein gilydd i gynyddu effaith ein gwaith.
4. Adeiladu ar gyfleoedd a datblygiadau digidol i symleiddio a gwella sut rydym yn gweithio.

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**



## Dylanwad

### Bod yn adnabyddus a dibynadwy, gan rannu ein dealltwriaeth a'n harbenigedd unigryw er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

1. Bod yn fwy gweledol i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r hyn rydym yn ei wneud a sut y gallwn helpu.
2. Sicrhau bod ein gwaith wedi'i lywio gan y bobl sy'n defnyddio ac yn gweithio mewn gwasanaethau gofal.
3. Adrodd yn agored, heb ffafrio'r hyn rydym yn ei ddysgu am ofal yng Nghymru, heb fod ofn herio lle rydym yn gweld cyfleoedd i ymyrryd ar ran y rhai sy'n derbyn gofal.
4. Gweithio gyda'n gilydd ar draws AGC a gyda'n partneriaid, gan rannu'r hyn rydym yn ei wybod i wella canlyniadau i bobl.

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**




# Cynlluniau ategol

Mae gennym nifer o gynlluniau eisoes ar waith a fydd yn ein helpu i weithio tuag at ein hamcanion i gyflawni ein huchelgeisiau.

- Cynllun ymgysylltu.
- Strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Hyrwyddo diwylliant Cymru a chynllun gweithredu'r iaith.
- Strategaeth y gweithlu / cynllun datblygu.
- Fframwaith sicrhau ansawdd.

Mae gan y timau AGC canlynol eu cynlluniau gweithredol eu hunain sy'n amlinellu eu camau gweithredu penodol:

- Arolygu gwasanaethau oedolion a phlant.
- Arolygu gofal plant a chwarae.
- Arolygu awdurdodau lleol.
- Cofrestru a gorfodi.
- Gwasanaethau cymorth.



Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**




# Mesur ein heffaith

Byddwn yn gwybod ein bod yn cyflawni ein huchelgeisiau drwy fesur effaith ein gwaith dros y pum mlynedd nesaf. Er ein bod yn gallu mesur rhai pethau nawr, byddwn hefyd yn sefydlu ein sylfaen ac yn datblygu mesurau dros y blynyddoedd nesaf.

| AMCANION | MESURAU |
|---|---|
| **Sicrhau** | |
| Sicrhau bod ein gwaith yn canolbwyntio ar ansawdd bywyd y bobl a'u profiad o ofal. | • Cynnydd o % o wasanaethau “da” neu “rhagorol”.<br>• Cynyddu o % o wasanaethau sy’n dangos gwelliant yn dilyn arolygiad.<br>• % o adborth gan y cyhoedd am adroddiadau arolygu sy’n gadarnhaol.<br>• Cynyddu nifer y bobl sy’n cwblhau ffurfleni adborth ar wasanaethau.<br>• Gwella amrywiaeth y gweithlu.<br>• Canlyniadau arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil.<br>• Cynyddu nifer y staff sy’n siarad Cymraeg.<br>• % o ymatebion i adborth ar ein gwaith sy’n gadarnhaol. |
| Darparu adroddiadau a gwybodaeth o ansawdd uchel sy’n hawdd eu deall fel bod y bobl yn deall ein gwaith a’n canfyddiadau. | |
| Cael gweithlu amrywiol, cadarn a gwydn. | |
| Meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, darparwyr, comisiynwyr a chydweithwyr. | |
| **Gwella** | |
| Dathlu llwyddiant ac annog gwelliant parhaus mewn gwasanaethau gofal ar lefelau sector ac mewn gwasanaethau unigol. | • Nifer y cynadleddau ansawdd, digwyddiadau darparwyr a digwyddiadau dysgu a gynhelir bob blwyddyn.<br>• Nifer yr astudiaethau achos o arferion cadarnhaol sy’n cael eu cyhoeddi.<br>• % o’r adborth ar adnoddau Diwylliannau Cadarnhaol sydd yn gadarnhaol.<br>• Nifer yr arolygiadau ar y cyd/gweithgareddau thematig sy’n cael eu cwblhau. |
| Hyrwyddo diwylliannau sefydliadol cadarnhaol a chynhwysol. | |
| Sicrhau bod timau ac arolygiaethau’n cydweithio’n well fel eu bod yn dysgu gan ei gilydd ac yn cynyddu’r effaith. | |
| Adeiladu ar gyfleoedd digidol i symleiddio a gwella ein gwaith. | |
| **Dylanwad** | |
| Bod yn fwy gweledol i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r hyn rydym yn ei wneud a sut y gallwn helpu. | • Cynnydd mewn cysylltiadau gan aelodau o’r cyhoedd.<br>• Nifer y bobl sy’n cael gwybodaeth am wasanaethau ar ein gwefan.<br>• Cynyddu nifer y bobl sy’n mynd ar ein gwefan ac yn ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol, e.e. rhyngweithio â’n postiadau ac yn eu hoffi, gadael sylw, neu’n eu rhannu.<br>• Nifer y ffyrdd newydd sydd wedi’u datblygu i gael pobl i ymgysylltu â’n gwaith.<br>• Mae dull casglu data â Gofal Cymdeithasol Cymru ar waith.<br>• % yr adborth yn dilyn digwyddiadau darparwyr a dysgu sy’n gadarnhaol. |
| Sicrhau bod ein gwaith wedi'i lywio gan y bobl sy'n defnyddio ac yn gweithio mewn gwasanaethau gofal a defnyddio'r hyn y maent yn ei ddweud wrthym i ddylanwadu gwelliannau a'r broses o lunio polisïau. | |
| Gweithio gyda'n gilydd ar draws AGC a gyda'n partneriaid, gan rannu'r hyn rydym yn ei wybod i wella canlyniadau i bobl. | |

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**




# Ein cynllun gweithredu ar gyfer 2025-2027

Mae pum mlynedd yn gyfnod hir, felly rydym wedi nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen arnom i wneud y gorau o'r ddwy flynedd nesaf i weithio tuag at ein hamcanion. Byddwn yn adolygu ac yn diweddaru'r rhain yn 2027.

| AMCANION | GWEITHREDOEDD 2025-2027 |
|---|---|
| **Sicrhau** | |
| Sicrhau bod ein gwaith yn canolbwyntio ar ddiogelwch pobl, ansawdd eu bywyd a'u profiad o ofal. | • Parhau i ddarparu ein swyddogaethau sicrwydd craidd.<br>• Adolygu ffocws ein hymweliadau arolygu i ddarparu mwy o amser i siarad â phobl.<br>• Archwilio'r gwahanol ffyrdd o roi sicrwydd.<br>• Adolygu ein dull o gofnodi'r ffordd rydym yn ymateb i bryderon. |
| Darparu adroddiadau a gwybodaeth o ansawdd uchel sy'n hawdd eu deall fel bod y bobl yn deall ein gwaith a'n canfyddiadau. | • Adolygu'r ffordd rydym yn llunio adroddiadau arolygu, gan gynnwys pobl a all ddefnyddio gwasanaethau yn y maes hwn. |
| Cael gweithlu amrywiol, cadarn a gwydn. | • Adolygu a diweddaru ein cynllun gweithlu a chanolbwyntio ar gynyddu amrywiaeth a staff sy'n siarad Cymraeg.<br>• Parhau i roi ein cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar waith. |
| Meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, darparwyr, comisiynwyr a chydweithwyr. | • Datblygu amrywiaeth o opsiynau cyngor i wella ansawdd ceisiadau cofrestru â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). |
| **Gwella** | |
| Dathlu llwyddiant ac annog gwelliant parhaus mewn gwasanaethau gofal ar lefelau sector ac mewn gwasanaethau unigol. | • Parhau i ddatblygu ein dull ar gyfer dyfarniadau a graddau yn ein gweithgarwch arolygu.<br>• Datblygu'r ffordd rydym yn rhannu arferion cadarnhaol ymhellach ac yn cyfeirio at gyngor ac arweiniad, gan gynnwys digwyddiadau darparwyr a dysgu a chynadleddau ansawdd. |
| Hyrwyddo diwylliannau sefydliadol cadarnhaol a chynhwysol. | • Gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn rhoi diwylliannau cadarnhaol ar waith. |
| Sicrhau bod timau ac arolygiaethau'n cydweithio'n well fel eu bod yn dysgu gan ei gilydd ac yn cynyddu'r effaith. | • Cytuno ar raglen dwy flynedd o gyfleoedd systematig ar gyfer cydweithio a rhannu gwybodaeth, gan gynnwys gyda phartneriaid Arolygu Cymru. |
| Adeiladu ar gyfleoedd digidol a datblygiadau i symleiddio a gwella ein gwaith. | • Datblygu strategaeth ddigidol, gan gynnwys y ffordd y byddwn yn datblygu ac yn gwella sgiliau digidol.<br>• Datblygu a defnyddio gwasanaethau digidol AGC er mwyn helpu i ddewis gwasanaethau a galluogi darparwyr i ryngweithio'n hawdd â ni. |

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**




| AMCANION | GWEITHREDOEDD 2025-2027 |
| --- | --- |
| **Dylanwad** | |
| Bod yn fwy gweledol i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r hyn rydym yn ei wneud a sut y gallwn helpu. | • Rhoi cynllun cyfathrebu cynhwysfawr ar waith i fod yn fwy gweledol. |
| Sicrhau bod ein gwaith wedi'i lywio gan y bobl sy'n defnyddio ac yn gweithio mewn gwasanaethau gofal a defnyddio'r hyn y maent yn ei ddweud wrthym i ddylanwadu gwelliannau a'r broses o lunio polisïau. | • Adolygu a diweddaru ein cynllun ymgysylltu er mwyn ymgorffori ffyrdd mwy amrywiol o gynnwys pobl yn ein gwaith. |
| Gweithio gyda'n gilydd ar draws AGC a gyda'n partneriaid, gan rannu'r hyn rydym yn ei wybod i wella canlyniadau i bobl. | • Gwneud y defnydd gorau o'n data a'n gwybodaeth wrth weithio gyda'n partneriaid.<br>• Datblygu ffyrdd o gasglu data'r gweithlu gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. |



Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**




**Arolygiaeth Gofal Cymru**

Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ

**0300 7900 126**

AGC@llyw.cymru | arolygiaethgofal.cymru